**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Hydref 2022

Annwyl Huw,

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus**

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 22 Medi i roi gwybod i mi fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad wedi penderfynu gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas â'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Gweler atodiad 1 ynghlwm sy'n ymateb i'r cwestiynau a nodir yn eich llythyr.

Rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn gweld yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol, ac rwy'n hapus i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol i chi os oes angen.

Yn gywir

Hannah Blythyn

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**<u>Atodiad 1</u>**

**Cyffredinol**

1. **A ydych yn fodlon bod holl ddarpariaethau’r Bil fel y’i cyflwynwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd?**

   Yn ei llythyr at Brif Weinidog Cymru ar 6 Mehefin, cadarnhaodd y Llywydd fod y Bil hwn, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2. **A oes unrhyw faterion hawliau dynol yn codi o'r Bil?**

   Ni nodwyd unrhyw faterion.

3. **Roedd y Bil drafft yn cynnwys dyletswydd gwaith teg ar Weinidogion Cymru i osod amcanion gwaith teg, cymryd camau i gyflawni'r rhain, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd. Pam nad yw'r cynigion hyn wedi’u cynnwys yn y Bil sydd wedi’i gyflwyno i’r Senedd? A yw'r elfennau hyn o'r Bil drafft wedi'u dileu oherwydd y cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd?**

   Mae ar gof a chadw ein bod wedi derbyn diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg o waith teg a’i nodweddion yn ein gwaith polisi. Mae hynny’n dal i fod yn wir. Ond nid yw hynny’n golygu y gallwn ddeddfu ynghylch y diffiniad hwnnw. Mae’r Comisiwn Gwaith Teg wedi cydnabod bod eu diffiniad yn cwmpasu meysydd annatganoledig yn ogystal â meysydd datganoledig, ac yn amlwg mae goblygiadau i hynny o dan y setliad datganoli.

   Mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyson â'r dull gweithredu cyffredinol yn holl elfennau’r Bil, lle mae darpariaethau eraill yn gysylltiedig â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf honno. Mae ein dull gweithredu hefyd yn adlewyrchu ysbryd argymhelliad y Comisiwn Gwaith Teg i ymgorffori gwaith teg o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn golygu y bydd cyrff cyhoeddus o dan ofyniad cyfreithiol i ystyried gwaith teg fel rhan o’r camau i gyflawni nod llesiant ‘Cymru lewyrchus’.

   Mae'r dull hwn yn cwmpasu ein cyrff cyhoeddus, ac felly mae ei effaith yn ehangach, ac o bosibl yn fwy, nag effaith Dyletswydd Gwaith Teg ar Weinidogion Cymru yn unig, fel y cynigiwyd yn flaenorol. Credaf ei bod yn bwysig hefyd osgoi defnyddio termau gwahanol a all gael eu dehongli i gwmpasu gweithgarwch sy'n eithaf tebyg neu sy'n gorgyffwrdd, h.y. gwaith addas a gwaith teg. Gwyddom ar sail ein gwaith ymgynghori bod cysondeb terminoleg yn rhywbeth a gaiff ei groesawu. Gallai hyn oll gyfrannu at ddull mwy effeithiol o ystyried gwaith teg wrth geisio sicrhau lles.

   Saith nod llesiant Cymru yw'r glasbrint i sicrhau dyfodol gwell a mwy cynaliadwy i bawb. Maent yn mynd i'r afael â'r heriau byd-eang sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru, gan gynnwys tlodi, anghydraddoldeb, newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, cydlyniant cymunedol a sicrhau gwaith teg i bawb. Bydd cynnwys sicrhau gwaith teg fel un o elfennau’r nodau llesiant rhyng-gysylltiedig ac anwahanadwy yn anfon neges gref nad oes modd creu dyfodol mwy cynaliadwy, yn unol â’r nodau llesiant, heb hyrwyddo gwaith teg.

4. **A allwch nodi pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn lle dilyn dull anstatudol?**

   Pwrpas y ddeddfwriaeth hon yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus). Fel y mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn ei nodi, mae partneriaethau cymdeithasol a chydweithio yn ehangach wedi bod yn nodwedd sy'n diffinio'r ffordd y mae Cymru yn cael ei llywodraethu ers blynyddoedd lawer. Mae llawer o'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol sy'n bodoli yng Nghymru wedi datblygu'n wirfoddol ac yn organig. Ar hyn o bryd, nid oes fframwaith cyffredin sy'n sail iddynt, ac nid ydynt yn cael eu cydlynu gyda'r bwriad o sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Gall nifer ac ystod y partneriaethau hyn roi pwysau ar bartneriaid cymdeithasol, ac effeithio ar eu gallu i ymgysylltu a chyfrannu'n llawn.

   Gellir disgwyl i'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol anffurfiol ac ad-hoc presennol barhau heb ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu mai dim ond i ryw bwynt y gellir cydlynu gwelliannau effeithiol o ran gwasanaethau cyhoeddus a lles heb sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn hybu mwy o gysondeb ac yn cryfhau effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, gyda phwrpas clir iawn mewn golwg.

   Mae sawl adolygiad o brosesau caffael cyrff cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf wedi nodi diffyg cysondeb wrth geisio cyflawni ym maes lles. Er bod llawer o enghreifftiau o arferion da sy'n seiliedig ar y canllawiau presennol, bydd deddfwriaeth, ynghyd â system o oruchwylio ac atebolrwydd, yn sicrhau bod yr arferion da yn cael eu gweithredu'n ehangach.

5. **Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill am y Bil hwn gan ei fod yn dod o dan y Fframwaith Cyffredin Caffael Cyhoeddus. A wnaeth unrhyw un o weinyddiaethau eraill y DU fynegi pryderon ichi am y Bil? Os felly, beth oedd eu pryderon a sut y gwnaethoch ymateb?**

   Nid oes pryderon wedi eu codi o gwbl.

**<u>Perthynas â Bil Caffael Llywodraeth y DU</u>**

6. **Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio Bil Caffael Llywodraeth y DU i ddiwygio prosesau caffael cyhoeddus ym mis Awst 2021. Mewn llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 1 Medi, dywed y Gweinidog:**

   **"Byddai ymgorffori'r Bil Caffael o fewn y Bil SPPP yn golygu newid cwmpas y Bil SPPP, gan y byddai'n cael ei newid i fod yn Fil Caffael yn bennaf ac yn symud ei ffocws oddi wrth Bartneriaethau Cymdeithasol. Hefyd, mae'r ddau Fil yn anelu at gyflawni gwahanol bethau - mae'r Bil Caffael yn canolbwyntio ar y prosesau sy'n gosod y seiliau ar gyfer caffael, tra bo'r Bil SPPP yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn arwain at ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol."**

**O ran llythyr y Gweinidog Cyllid atom ar 1 Medi, pam y byddai newid cwmpas y Bil i gynnwys prosesau caffael yn broblem, yn enwedig pe bai'n adlewyrchu'r hyn a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU ac yn arwain at ddeddfwriaeth ddwyieithog fwy hygyrch?**

Roedd Gweinidogion Cymru o’r farn y byddai cael Bil cyfun, a’r gwahaniaethau anochel a fyddai wedi codi rhwng Cymru a gweddill y DU, yn debygol o greu costau uwch i awdurdodau a chyflenwyr contractio Cymru, fel ei gilydd, o ran trafodion a chynigion. Mae prosesau caffael sy’n gyffredin ledled y DU yn debygol o sicrhau bod contractau Cymru yn parhau i fod yn ymarferol ac yn ddeniadol i gynigwyr posibl, gan effeithio ar werth am arian ac arloesedd. Mae hyn hefyd yn ei gwneud yn haws i gyflenwyr o Gymru wneud cynigion am gontractau mewn rhannau eraill o'r DU.

Pe bai Gweinidogion Cymru wedi penderfynu deddfu'n annibynnol ar Lywodraeth y DU, o ystyried y cymhlethdod a'r angen i alinio’r manylion, byddai'r ddeddfwriaeth Gymreig wedi'i gweithredu'n ddiweddarach. Mae deddfu ochr yn ochr â Llywodraeth y DU yn golygu y caiff cyflenwyr barhau i weithredu, ac mae’n sicrhau y gall busnes trawsffiniol gyda Lloegr barhau i raddau helaeth heb ddryswch na chostau ychwanegol posibl i ddefnyddwyr.

Bydd safonau'r Gymraeg yn parhau, fel nawr, i fod yn berthnasol i brosesau a systemau caffael yng Nghymru, gan sicrhau bod modd caffael drwy gyfrwng y Gymraeg.

7. **Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai un o amcanion y Bil yw “gwella'r cysylltiad rhwng prosesau caffael a sicrhau canlyniadau drwy reoli contractau.” Onid yw'r datganiad hwn yn awgrymu bod tebygrwydd rhwng y Biliau ac y gallai fod wedi bod yn fuddiol cyfuno'r ddau ohonynt?**

Na, ni fwriedir i'r datganiad hwn olygu bod y ddau Fil yn ymwneud â phrosesau caffael. Mae'n golygu nad yw Bil y DU yn cynnwys dyletswyddau tebyg neu gysylltiedig â'r rheini sydd yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) mewn perthynas â rheoli contractau, ac rydym o'r farn bod angen y dyletswyddau hyn o ran rheoli contractau.

I raddau helaeth, mae Bil y DU yn canolbwyntio ar sicrhau bod prosesau caffael yn dryloyw ac yn deg, tra bo Bil Cymru yn canolbwyntio ar ymgorffori blaenoriaethau polisi sy'n gymdeithasol gyfrifol mewn prosesau caffael, a sicrhau'r rhain drwy well prosesau rheoli, adrodd a goruchwylio o ran contractau.

8. **A wnaethoch ystyried Bil Caffael ar wahân gan Lywodraeth Cymru, yn adlewyrchu darpariaethau ym Mil Llywodraeth y DU a fyddai wedi galluogi Aelodau o'r Senedd i graffu, fyddai'n cyd-fynd â'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael?**

Do, cafodd pob opsiwn ei ystyried yn ofalus cyn penderfynu peidio â chyflwyno Bil Caffael ar wahân a fyddai’n cwmpasu pob agwedd ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru. Mae cryn fanteision i gael cyfres gydlynol o brosesau caffael ledled y DU.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod Aelodau’r Senedd wrthi’n craffu ar Fil y DU drwy'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol, a bydd hyn yn parhau wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth yng

Nghymru. Craffwyd ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 21 Medi.

9. **Roedd llythyr y Gweinidog dyddiedig 1 Medi hefyd yn cyfeirio at yr angen am gysondeb o ran arferion caffael. Mae Bil y DU yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth. Pam y gellir sicrhau cysondeb drwy weithredu is-ddeddfwriaeth ar wahân yng Nghymru a Lloegr, ond nid deddfwriaeth sylfaenol ar wahân?**

Mae'r dull gweithredu o ran y Bil Caffael yn gyson â'n Hegwyddorion ar gyfer Argymell Cydsyniad i Filiau'r DU, sydd wedi eu rhannu gyda'r Senedd.

Mae'r Egwyddorion hyn yn cynnwys ceisio pwerau i Weinidogion Cymru o ran gwneud rheoliadau sy'n cyfateb i'r pwerau yn Lloegr.

Wrth weithio ar is-ddeddfwriaeth, bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau cysondeb, sy'n hanfodol i brynwyr a chyflenwyr, fel ei gilydd, ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, bydd pwerau cyfatebol yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau os bydd polisi Cymru yn newid yn y dyfodol. Ni fyddai newidiadau o'r fath yn rhai dramatig, gan mai ar un neu ddwy agwedd yn unig y byddent yn debygol o effeithio yn hytrach nag ar bob maes lle mae pwerau cyfatebol. Byddent hefyd yn ddarostyngedig i'r Fframwaith Cyffredin, gan fod polisïau a deddfwriaeth a ddatblygir yn cael eu trafod gan Weithgor y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Caffael Cyhoeddus er mwyn rhoi sylw i achosion o ddulliau gweithredu gwahanol.

10. **A allwch roi crynodeb o sut mae'r Bil hwn yn rhyngweithio â deddfwriaeth Llywodraeth y DU, a sut mae deddfwriaeth Llywodraeth y DU wedi effeithio ar y gwaith o ddatblygu'r Bil hwn?**

Dechreuodd y gwaith ar ddyletswyddau caffael cyhoeddus y Bil hwn tua blwyddyn cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei Phapur Gwyrdd ar drawsnewid caffael cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2020. Unwaith y cyhoeddwyd y Papur Gwyrdd, roedd yn gysur nodi, er bod cynigion Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar brosesau caffael, fod y ddau Fil yn rhannu'r amcanion lefel uchel o leihau'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â chaffael, gan gynyddu tryloywder a chryfhau atebolrwydd.

Mae angen sicrhau cysondeb terminoleg rhwng y ddau Fil. Y prif feysydd cysylltiedig yw:

- y gorgyffwrdd rhwng Datganiad Polisi Caffael Cymru y cyfeirir ato ym Mil y DU a'r nodau llesiant y cyfeirir atynt yn y Bil hwn;
- y mecanwaith ar gyfer olrhain dangosyddion perfformiad allweddol ym Mil y DU a'r broses adrodd flynyddol yn y Bil hwn;
- y trefniadau goruchwylio sydd eu hangen ar gyfer Bil y DU ac is-bwyllgor caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

**<u>Hygyrchedd</u>**

**11. Un o'r egwyddorion a osodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yw anelu at gyfraith glir a hygyrch ar y llyfr statud yng Nghymru. Os caiff y Bil hwn a Bil Caffael Llywodraeth y DU eu pasio, bydd cyfraith gaffael sy'n gymwys i ddinasyddion Cymru yn cael ei chynnwys yn Neddfau'r Senedd a Senedd y DU. Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi cadw at ei hegwyddorion ei hun o ddeddfwriaeth glir a hygyrch?**

Mae ymarferwyr caffael yng Nghymru eisoes wedi arfer â gweithio o dan fwy nag un gyfres o ddeddfwriaeth, a'r cysyniad o ymgorffori blaenoriaethau polisi sy'n gymdeithasol gyfrifol mewn prosesau caffael, er enghraifft mae angen iddynt ystyried y gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eisoes.

Byddai'r effaith negyddol bosibl ar brynwyr a chyflenwyr yn sgil deddfwriaeth wahanol ar brosesau caffael wedi bod yn sylweddol. Byddai'r cymhlethdod ychwanegol hwn hefyd yn effeithio ar gyflenwyr o Gymru sy'n gwneud cynigion am gontractau cyhoeddus y tu allan i Gymru. Gan fod y ddau Fil yn symud ymlaen ar sail amserlenni tebyg, bydd hyn yn caniatáu i'r canllawiau, yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir i brynwyr a chyflenwyr gael eu datblygu mewn ffordd glir a hwylus. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r rheini yn nhîm diwygio prosesau caffael Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i sicrhau cysondeb a chydlyniant rhwng y ddau Fil.

**12. Mae adran 17 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol "wrth wneud penderfyniadau o natur strategol" ynghylch y camau rhesymol i'w cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, mae Archwilio Cymru o'r farn y gellid egluro'r ymadrodd "penderfyniadau o natur strategol" ar wyneb y Bil, gan "n[a]d yw'n ymddangos yn gwbl briodol i Weinidogion Cymru fod yn rhoi arweiniad iddynt eu hunain ar ddehongli'r ymadrodd hwn." A ydych wedi ystyried egluro'r ymadrodd hwn ar wyneb y Bil?**

Yn ddiweddar, drwy fynd ati i ddeddfu ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, rydym wedi darparu canllawiau ar yr hyn a olygir wrth 'benderfyniadau o natur strategol' fel y nodir yn adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r canllawiau hyn yn darparu enghreifftiau o benderfyniadau strategol y gallai cyrff cyhoeddus eu gwneud, gan gynnwys cynlluniau tymor canolig a hir megis cynlluniau corfforaethol, ac wrth gwrs amcanion a bennir. Yn gyffredinol, penderfyniadau strategol fydd y rhai sy'n effeithio ar sut mae'r corff cyhoeddus yn cyflawni ei bwrpas statudol arfaethedig dros gyfnod sylweddol o amser, ac ni fyddant yn cynnwys penderfyniadau dydd i ddydd arferol.

**13. Bydd adran 20 y Bil yn diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' yn y nod presennol "Cymru ffyniannus". Yn y dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a**

**Chyfiawnder Cymdeithasol, nododd yr Athro Alan Felstead fod y Memorandwm Esboniadol sydd ynghlwm â'r Bil a gyflwynwyd yn awgrymu y bydd hyn yn golygu bod 'gwaith teg yn cymryd ei ystyr arferol', er bod gan y term ystyr penodol iawn sydd wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. A ydych yn credu y bydd absenoldeb y diffiniad derbyniol hwn yn y Bil hwn yn cael unrhyw effaith ar hygyrchedd ac eglurder gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?**

Fel rwyf wedi'i gwneud yn glir yn fy ateb i gwestiwn 3 uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg o waith teg a'i nodweddion yn ein gwaith polisi. Yn fy marn i, ymdrinnir â gwaith teg mewn ffordd sy'n gyson â'r ffordd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi'i drafftio. Ni fydd y geiriad yn cael effaith negyddol gan mai bwriad yr amcanion oedd llunio fframwaith cenedlaethol hirdymor i'w gwneud yn bosibl ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy yn elfennau mwyaf canolog cyrff cyhoeddus.

**<u>Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth</u>**

**14. A ydych yn fodlon bod y Bil yn taro'r cydbwysedd cywir o ran darparu manylion ar wyneb y Bil yn erbyn rhoi pwerau llunio rheoliadau i Weinidogion Cymru?**

Yr unig bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil hwn yw'r rhai yn rhan 3, sy'n delio â chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Maent wedi'u cynnwys er mwyn ein galluogi i wneud unrhyw newidiadau gweithredol y bydd eu hangen yn y dyfodol: er enghraifft, diwygio'r rhestr o awdurdodau contractio sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth, neu addasu'r rhestr o faterion y mae'n ofynnol i'r cyrff hynny eu hystyried wrth lunio eu strategaethau caffael, sy'n debygol o newid dros amser wrth i flaenoriaethau strategol esblygu.

**15. Mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ("y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu") ynghylch materion cyflogaeth a phensiynau sy'n ymwneud ag allanoli gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y "cymalau gweithlu cymdeithasol cyhoeddus" yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cod hwnnw. Mae adrannau eraill (fel adran 33) hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r cod a gyhoeddir o dan adran 32 gynnwys cymalau contract enghreifftiol, a fydd yn sail i nodau'r Bil o ran sicrhau caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Bydd y cod ymarfer felly yn chwarae rhan ganolog. Gyda hynny mewn golwg, pam nad oes gan y cod weithdrefn graffu ynghlwm wrtho, a pham nad oes dyletswydd i ymgynghori ynghylch y cod? A wnaiff Llywodraeth Cymru gyhoeddi cod ymarfer drafft o leiaf cyn cyfnodau diwygio'r Bil er mwyn i Aelodau gael cyfle i graffu arno?**

Bydd yr holl ganllawiau statudol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth gymdeithasol ac yn cynnwys ymgynghori'n agored â rhanddeiliaid. Ni all y broses hon ddechrau'n ffurfiol nes i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol, er y bydd gwaith rhagarweiniol yn cael ei wneud ymlaen llaw. O ystyried faint o ganllawiau statudol y bydd eu hangen i gefnogi'r dyletswyddau caffael, byddai'n anodd paratoi Cod Ymarfer drafft mewn pryd ar gyfer cyfnodau diwygio'r Bil.

16. **Mae adran 38(3) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio adran 38(2) o'r Bil i bennu materion eraill y dylai strategaethau caffael fynd i'r afael â hwy ac i leihau nifer y diwrnodau a bennir yn adran 38(2)(c) (yr uchafswm nifer y dyddiau ar gyfer talu anfoneb). Mae hwn yn bŵer a all ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (pŵer Harri VIII) ond eto dim ond y weithdrefn graffu negyddol a ddefnyddir. Mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai unrhyw bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd â'r gallu i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yn sgil hyn, pam yr ydych wedi penderfynu defnyddio'r weithdrefn graffu negyddol yn unig yn yr achos hwn?**

    Yn unol â'r confensiwn a gytunwyd rhwng y Senedd a'r Cwnsler Cyffredinol, rydym wedi sicrhau bod y pwerau hynny i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n caniatáu diwygio darpariaethau yn y Bil ei hun i gyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yr eithriad yw rheoliadau o dan adran 38 sy'n weithredol eu natur sy'n ymdrin â materion y mae angen i strategaethau caffael fynd i'r afael â nhw. Y rhai sy'n delio â materion gweithredol neu dechnegol nad ydynt yn newid pwrpas nac effaith y ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun mewn unrhyw ffordd yw'r rhai yr ydym wedi pennu y dylid eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

17. **Mae adran 48(1) o'r Bil yn nodi y "daw'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn". Pryd yr ydych yn bwriadu i'r Bil ddod i rym, pe byddai'n cael ei basio gan y Senedd?**

    Ein bwriad yw i'r ddeddfwriaeth ddod i rym cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd yr aelodau yn sylweddoli bod pedair elfen y Bil yn gosod amrywiol ddyletswyddau a gofynion ar wahanol gyrff - gan gynnwys Gweinidogion Cymru. Bydd angen i rai adrannau o'r Ddeddf gael eu cychwyn mewn trefn benodol felly.
    Er enghraifft, mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, byddem yn gobeithio cychwyn y darpariaethau penodi erbyn hydref 2023, gyda'r bwriad o wneud y penodiadau hynny, a bod y Cyngor yn gallu cyfarfod, cyn diwedd 2023.

    O ran y dyletswyddau gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol, rydym yn bwriadu cyhoeddi cyngor cychwynnol yn ystod 2023 fel bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys unrhyw gyrff ychwanegol a ddaw o fewn cwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn gallu cynllunio'n briodol ar gyfer y dyletswyddau newydd hynny a deall beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Bydd angen ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch canllawiau statudol a lunnir o dan ddarpariaethau perthnasol y Bil, a chânt eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, fel y gall cyrff cyhoeddus bennu neu adolygu eu hamcanion llesiant yn 2024, yn unol â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, yng ngoleuni'r canllawiau hynny. Yn ehangach, cyn belled ag y bo modd, byddwn hefyd yn ceisio cysoni'r cylchoedd pennu amcanion ac adrodd yn y ddeddfwriaeth hon â'r cylchoedd y mae ein partneriaid eisoes yn eu dilyn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

    I droi at gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol, tra bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn gyfrifol am sefydlu'r is-grŵp caffael cyhoeddus ei hun, mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu'r canllawiau, yr hyfforddiant a'r trefniadau monitro angenrheidiol y bydd eu hangen i gefnogi'r trefniadau hyn. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol a'r gymuned caffael cyhoeddus yng Nghymru, a bydd hynny'n parhau. Byddwn hefyd yn ceisio cydlynu'r newidiadau sy'n deillio o weithredu Bil Caffael y DU yng Nghymru â'r darpariaethau yn ein Bil ni er mwyn osgoi gorlwytho darparwyr gwasanaethau â thon ar ôl ton o newidiadau statudol heb drefn.